



Ein cyf/Our ref MA-P-VG-4127-18

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Rhagfyr 2018

Annwyl Dai,

Gwariant ar ofal sylfaenol

Yn fy sesiwn dystiolaeth yn ystod proses graffu'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Gyllideb Ddrafft ar 7 Tachwedd 2018, cytunais i ddarparu nodyn ynghylch gwariant ar ofal sylfaenol.

Gwariant Cyfalaf

Ym mis Rhagfyr 2017, fe wnes i lansio llyf arfaethedig o 19 o brosiectau gofal sylfaenol ledled Cymru, i'w cyflawni erbyn 2021. Mae 15 o'r rhain yn gynlluniau cyfalaf a 4 yn gynlluniau a gyllidir drwy refeniw. Mae'r cynlluniau'n gyfuniad o adnewyddu ac ailddatblygu asedau presennol y GIG a chodi adeiladau newydd. Maent yn amodol ar lwyddiant yr achosion busnes a ddarperir gan y cyrff GIG perthnasol.

Pan lanswyd y llyf arfaethedig, dynodwyd £68m i gefnogi'r gwaith o roi'r cynllun ar waith dros y cyfnod 2018-21. Wrth i'r cynlluniau busnes ar gyfer y cynlluniau gael eu datblygu, rhoddir gwybod am ofynion cyllido ychwanegol. O ganlyniad, mae'r gyllideb ddrafft yn darparu cyllid cyfalaf ychwanegol o £4.5m yn 2020-21. Mae darparu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig drwy'r cynllun hwn yn ymrwymiad allweddol yn *Symud Cymru Ymlaen* ac yn gonglfaen i'r Polisi Iechyd a Llesiant yn *Ffyniant i Bawb*.

Gwariant Refeniw

O ran y gwariant refeniw, fe wnaethoch ofyn faint o gyllid a roddwyd i ofal sylfaenol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Gallaf gadarnhau bod y symiau fel a ganlyn:

2015-16 £1,365m

2016-17 £1,374m

2017-18 £1,436m, sydd ym mhob blwyddyn yn cynrychioli 21% o'r gyllideb iechyd gyfan.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2018-19 byddem yn disgwyl oddeutu £27.7m o gynnydd yn y buddsoddiad i adlewyrchu'r cynnydd y cytunwyd arno ar gyfer meddygon teulu a deintyddion gan y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion (DDRB). Yn 2019-20, yn amodol ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, byddwn yn disgwyl buddsoddiadau pellach mewn gofal sylfaenol ar ben y cynnydd DDRB y cytunwyd arno.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r pwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services